

Cofnod Cyfarfod Awdurdod S4C
12.12.2013, S4C, Llanisien, Caerdydd
Ystafell Werdd

Cyfarfod Rhif 372

Presennol:	Huw Jones Aled Eirug Carol Bell Glenda Jones Elan Closs Stephens Marian Wyn Jones Rheon Tomos	(Cadeirydd) (Aelod o'r Awdurdod) – <i>eitemau 4.2 ymlaen</i> (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) – <i>eitemau 4.1-5 yn unig</i> (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod)
Ymddiheuriadau	John Davies	(Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones Garffild Lloyd Lewis Elin Morris Kathryn Morris Dafydd Rhys Phil Williams Bethan C. Williams	(Prif Weithredwr) (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) (Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol) (Cyfarwyddwr Cyllid) (Cyfarwyddwr Cynnwys) (Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Cynorthwy-ydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)

Hefyd yn bresennol: Rhodri Talfan Davies (Cyfarwyddwr BBC Cymru) – *eitem 5 yn unig*

Sylwadau agoriadol

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod.

1. Datganiad o ddiddordeb

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiad.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. Cofnodion cyfarfod 371 (14.11.2013) a materion yn codi

2.1 Cyflwynwyd a derbyniwyd y cofnodion o gyfarfod 371 fel rhai cywir.

2.2 Materion yn codi

Datganiad gan y DCMS ddydd Llun, (09.12.2013).

[**Crynodeb:** Nodwyd na fydd y toriadau a glustnodwyd yn Natganiad yr Hydref yn effeithio ar S4C.]

3. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ysgrifenedig a chyfeiriwyd yn benodol at y materion canlynol.

Gwleidydd y Flwyddyn.

Mynychodd y Cadeirydd seremoni Gwleidydd y Flwyddyn yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd ar 10.12.2013.

Cyfarfod Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon Cymru

Cyfarfu'r Cadeirydd a PW gyda John Griffiths, Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru, fore ddoe (11.12.2013).

4. Adroddiad y Prif Weithredwr

4.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad ysgrifenedig a chyfeiriwyd yn benodol at y materion canlynol:

4.2 Ymchwil a Dadansoddi Data

Mae wedi edrych ar y rôl mae ymchwil wedi'i chyflawni yn y gorffennol a sut mae datblygu pethau i'r dyfodol. Y bwriad yw newid y cylch gorchwyl i ganolbwyntio mwy ar gasglu'r wybodaeth am ymddygiad ac arferion bob dydd defnyddwyr a defnyddwyr posib S4C mewn modd a fydd yn ganolog i strategaeth nifer o adrannau.

Bydd yr adran yn cael ei hail-enwi'n "Adran Ddadansoddi" ("Insight Department") ac yn y lle cyntaf yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr. Bydd yn ystyried ffyrdd o gasglu'r data wedi ei bersonoli o wahanol ffynonellau, yn edrych ar bob data a gesglir mewn ffordd strategol ac yn cynnig awgrymiadau strategol i'r unedau amserlennu, masnachol, technegol, cyfathrebu ac ar-lein, ymysg eraill. Bydd angen ystyried hefyd natur a nifer yr adroddiadau a gyflwynir gan yr Adran i'r Awdurdod.

Holwyd a oes cymhareb ynglŷn â sut mae sianelau eraill yn perfformio? Byddai'n ddefnyddiol cael y cyd-destun. Gallai hefyd fod yn ddiddorol cael darlun ehangach o sut mae rhai rhaglenni Saesneg yn perfformio yng Nghymru lle mae yna debygrwydd i rai Cymraeg. Gallai hynny ddangos fod sefyllfa S4C yn fwy cadarnhaol. Nododd IHJ mai amser ac adnodd ydy'r broblem. Falle gallwn ni gymharu pethau penodol o bryd i'w gilydd.

Nododd fod RE yn ymuno efo'r tîm ym mis Ionawr i gyflawni rôl fwy strategol ac arweiniol mewn perthynas â llunio a rheoli'r amserlen.

Ar gyfer y Diwrnod i Drafod, mae angen rhoi gwybod i'r adran ymchwil be ydy'r disgwyliadau. Nodwyd yr angen i adroddiadau'r Awdurdod fedru creu *narrative* ar sail data priodol, a sicrhau defnydd o'r data i greu strategaeth .

Cyfeiriodd hefyd at ddatblygiadau technegol. Roedd prosiect adnabod llais Cymraeg efo Canolfan Bedwyr ar waith. Nodwyd y byddai angen partneriaeth gyda gwneuthurwyr megis Samsung neu Sony maes o law er mwyn gweithredu'r meddalwedd.

4.3 Grŵp Gweithredol i edrych ar waith adrannol

Roedd IHJ yn poeni am faint o waith mae'r tîm rheoli yn ei wneud yn sgil y gostyngiad yn y nifer o aelodau. Roedd gormod o fwllch rhwng beth mae'r tîm rheoli yn ei wneud a gweddill y staff. Roedd wedi creu grŵp gweithredol fydd yn goruchwyllo gwaith adrannol o ddydd i ddydd gan wneud argymhellion i'r tîm

rheoli.

4.4 **Hysbysebion**

[**Crynodeb:** Trafodwyd yr incwm o hysbysebion. Bwriedir dileu hysbysebion o raglenni plant. Cafwyd ymateb cadarnhaol gan yr aelodau i'r bwriad.]

4.5 **Omnibws Pobol y Cwm**

[**Crynodeb:** Rhoddwyd diweddariad ar y trafodaethau gyda BBC Cymru ynglŷn ag omnibws Pobol y Cwm. Mae S4C yn disgwyl clywed pa opsiwn a ffafirir gan y BBC.]

4.6 **Adleoli**

[**Crynodeb:** Dosbarthwyd amserlen i'r aelodau ar gyfer cyflwyniadau'r ardaloedd, ynghyd ag amserlen drafod y Tîm Rheoli a'r Awdurdod. Cytunwyd os nad yw'n bosib i aelod fynd i un lleoliad na ddylai fod yn yr un ohonynt.]

4.7. **Brand a Phersonoliaeth S4C**

Adroddodd IHJ fod bwriad i ail-frandio elfennau o ddelwedd gyhoeddus S4C yn y Gwanwyn. Byddai gwybodaeth bellach yn cael ei chyflwyno i'r Awdurdod maes o law.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chost yr ail-frandio. Nodwyd y bydd gwybodaeth bellach am gostau yn cael ei chyflwyno'n ddiweddarach.

Holwyd oedd gwybodaeth ar gael ynglŷn â pha mor aml mae *idents* a logos yn cael eu hadnewyddu. Awgrymodd IHJ fod hynny'n tueddu i ddigwydd mor aml â phob 3 neu 4 blynedd mewn rhai sefydliadau darlledu.

5. **Cyflwyniad Rhodri Talfan Davies – braslun cynllun adleoli BBC ac o bosib S4C**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd RhTD gefndir y penderfyniad i adleoli BBC Cymru. Yna croesawodd gwestiynau a chafwyd trafodaeth agored.]

[**Crynodeb:** Cynhaliwyd trafodaeth fer i grynhoi ymateb yr aelodau i'r cyflwyniad.]

6. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cynnwys**

Oherwydd diffyg amser penderfynwyd trafod adroddiad y Cyfarwyddwr Cynnwys yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynnwys yn ystod y prynhawn (12.12.2013) ond cyfeiriwyd at yr isod:

Rygbi

[**Crynodeb:** Roedd cytundeb ar y bwrdd ond nid yw wedi'i gwblhau ar hyn o bryd.]

7. **Adroddiad Ymchwil Misol**

[**Crynodeb:** Trafodwyd yr adroddiad ond ceir mwy o amser i drafod mesuriadau perfformiad yn y Diwrnod i Drafod.]

8. Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfathrebu

8.1 Roedd yr aelodau'n awyddus i longyfarch y tîm ar y Cyngerdd ar gyfer Cronfa Apêl y Philipinau, ac am greu'r digwyddiad mewn cyn lleied o amser.

8.2 Cyflwynodd GLL ei adroddiad ysgrifenedig

9. Adroddiad Ariannol

[**Crynodeb:** Cyflwynodd KM yr adroddiad ariannol. Nodwyd bod rhai prosiectau oedd i ddiwydd yn 2013 wedi symud i 2014. Roedd y rhain yn cynnwys drama, comedi sefyllfa, a rhaglenni plant a phobl ifanc. Roedd angen cymeradwyaeth ffurfiol yr Awdurdod i'r newid perthnasol yn y Gyllideb a chymeradwyodd yr Awdurdod y newid.]

10. Cyllideb Drafft am y 3 mis Ionawr-Mawrth 2014

[**Crynodeb:** Cyflwynodd KM gyllideb ar gyfer y 3 mis Ionawr-Mawrth 2014. Cymeradwywyd y Gyllideb.]

11. Cymeradwyo cyfnod ariannol 15 mis a newid cyfnod cyfrifo S4C i flwyddyn ffiscal o 1 Ebrill 2014.

Esboniodd KM fod DCMS wedi nodi eu bod yn fodlon i S4C newid i gyfnod ariannol 15 mis o Ionawr 2013, ac yna i flwyddyn ariannol ffiscal o Ebrill 2014 er mwyn cyd-fynd gyda blwyddyn ariannol Ymddiriedolaeth y BBC a gofynion y Cytundeb Gweithredu. Nodwyd bod bwriad i newid cyfnod cyfrifo'r cwmnïau masnachol er mwyn cyd-fynd gyda chyfnod cyfrifo'r Awdurdod ac y byddai'r Bwrdd Masnachol yn cymeradwyo'r newid yn eu cyfarfod nesaf.

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am sut y dylid cyflwyno incwm cyhoeddus S4C ar gyfer y cyfnod 15 mis yn y Datganiad Ariannol.]

Cymeradwywyd yr argymhelliad i newid i gyfnod ariannol 15 mis o 1 Ionawr 2013 ac yna i newid i gyfnod cyfrifo ffiscal o 1 Ebrill 2014 ar gyfer cyfrifon yr Awdurdod a chyfrifon y cwmnïau masnachol.

12. Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth a Gwifren Gwylwyr

12.1 Nodwyd adroddiad y Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth o gyfarfod 27 Tachwedd 2013.

12.2. Nodwyd adroddiad y Gwifren Gwylwyr.

13. Proses Gwynion Ddiwygiedig

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am y drafft o'r Broses Gwynion Ddiwygiedig.]

Cymeradwywyd y Broses Gwynion Ddiwygiedig a phenderfynwyd ei chyflwyno a'i chyhoeddi cyn gynted â phosibl

14. Unrhyw fater arall

Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

15. **Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

Bydd y cyfarfod nesaf ar ffurf “Diwrnod i Drafod” ac fe’i cynhelir ar 16eg o fis Ionawr yn Stadiwm Swalec, Caerdydd.

[Cynhelir Cyfarfod Busnes nesaf yr Awdurdod ym mis Chwefror.]